Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr

2027/28

**Cynnwys**

1 Cyflwyniad ..... 3
2 Diffiniadau ..... 4
3 Crynodeb o Telerau ac Amodau Ffïoedd Dysgu ..... 5
A. Telerau ac Amodau Ffïoedd Dysgu ..... 6
1 Myfyrwyr sy'n Trosglwyddo eu Hastudiaethau'n Fewnol o Sefydliad Arall ..... 6
2 Myfyrwyr sy'n Derbyn Cydnabyddiaeth am Ddysgu Blaenorol/Dysgu Drwy Brofiad Blaenorol (RP(E)L) ..... 6
3 Asesiad gyda Mynychu o'r Myfyrwyr Sy'n Ail-wneud Blwyddyn ..... 6
4 Arholiadau mewn Lleoliadau Eraill ..... 7
5 Myfyrwyr sy'n Astudio Cyrsiau Ychwanegol ..... 7
6 Y Brifysgol yn Canslo ..... 7
7 Teithiau Maes ..... 7
8 Gweithgareddau a Ffïoedd Ychwanegol ..... 8
9 Ffïoedd Ychwanegol ar gyfer Dogfennau Dyblyg ..... 8
10 Cyfrifiadau Ffioedd Rhan-amser ..... 8
11 Ffi ar gyfer Modiwlau Unigol ..... 9
B. Gwybodaeth Ychwanegol ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig ..... 10
1 Ffïoedd Dysgu ..... 10
2 Dyddiadau Taliadau Dyledus ..... 10
3 Ffi Cyflwyniad i Ddod ..... 10
C. Telerau ac Amodau Ffïoedd Dysgu Ychwanegol ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol ..... 11
1 Amseriad y Telerau ..... 11
2 Myfyriwr gyda Noddwr Ariannol ..... 12
3 Cyrsiau Byrion Iaith Saesneg - Fisas Ymweld Myfyrwyr ..... 13
4 Peidio â Thalu Ffïoedd ..... 13
5 Cyrsiau Saesneg Cyn-sesiynol ..... 13
6 Estyniad i Fisa Myfyriwr ..... 14
7 Newid Statws y Sawl sy'n Talu'r Ffi i Fyfyriwr Ffïoedd y DU ..... 14
8 Sut i Dalu Ffïoedd sy'n Ddyledus ..... 14
9 Polisi Ad-dalu Ffïoedd Dysgu Myfyrwyr Rhyngwladol ..... 14
D. Telerau ac Amodau Ffïoedd Dysgu Ychwanegol - Myfyrwyr y DU ..... 18
1 Amseriad y Telerau ..... 18
2 Ffïoedd sy'n cael eu Hariannu'n Llawn gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) ..... 18

3 Ffïoedd sy'n cael eu Hariannu'n Llawn gan Fwrsariaeth GIG Cymru (Cyrsiau Nyrsio a Iechyd Perthynol) ..... 19
4 Myfyrwyr gyda Noddwr Ffïoedd ..... 19
5 Newid eich Dull o Astudio ..... 19
6 Tynnu'n Ôl/Atal o'r Cwrs - Rhwymedigaeth i Dalu Ffïoedd ..... 20
E. Telerau ac Amodau Ffïoedd Dysgu Ychwanegol Ar-lein Prifysgol Wrecsam ..... 22
1 Myfyrwyr sy'n Derbyn Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol (RPL) ..... 22
2 Canslo gan y Brifysgol ..... 22
3 Taliadau Ychwanegol ar gyfer Dogfennau Dyblyg ..... 22
4 Myfyrwyr a Ariannir gan y SLC ..... 22
5 Trosglwyddo i Raglenni ..... 22
Ymwadiad ..... 23
Hygyrchedd ..... 23

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r rheolau a'r rheoliadau mewn perthynas â ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Wrecsam.

1.2 Caiff y ffi gyhoeddedig ar gyfer myfyrwyr cartref israddedig llawn amser ei hadolygu'n flynyddol ac yn destun newid yn unol ag unrhyw gynnydd a ganiateir gan Lywodraeth Cymru. Caiff unrhyw newidiadau i ffioedd dysgu myfyrwyr eu cyfathrebu i'r myfyrwyr yr effeithir arnynt drwy e-bost a'u cyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

1.3 Rhaid cyflwyno manylion ynghylch sut mae myfyriwr yn bwriadu talu ei ffioedd dysgu wrth ymrestru (cofrestru). Mae'n rhaid i fyfyrwyr sydd wedi'u noddi i astudio yn y Brifysgol ddarparu llythyr wrth ymrestru/ail-ymrestru ar gyfer pob blwyddyn o'u cwrs yn cadarnhau y bydd eu noddwr yn talu'r ffi am y flwyddyn academaidd benodol honno, cyn pen 30 diwrnod. Rhaid i fyfyrwyr llawn amser wedi'u hariannu'n llawn gyflwyno'r hysbysiad cymorth myfyrwyr y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr sy'n cadarnhau'r cyllid. Dylai myfyrwyr sy'n ariannu eu ffïoedd dysgu drwy Fwrsariaeth GIG Cymru ymgeisio am eu hariannu cyn gynted ag y maent yn derbyn lle'n gadarn.

1.4 Ni chaniateir i fyfyrwyr ymrestru/ail-ymrestru os oes ganddynt ddyled ffioedd dysgu academaidd yn ddyledus. Bydd y Brifysgol yn tynnu myfyrwyr oddi ar y rhaglen ac yn trefnu i'r cofnodion perthnasol gael eu cau os na thelir y ddyled cyn pen dau fis i ddyddiad cychwyn y rhaglen/y flwyddyn academaidd.

1.5 Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod yr holl daliadau yn cyrraedd y Brifysgol erbyn y dyddiad cau gofynnol ar gyfer taliadau. Ni wneir unrhyw eithriad oherwydd bod banciau ar gau yn ystod gwyliau cyhoeddus/cenedlaethol ac fe ddylai'r myfyriwr ragweld y rhain. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud yn brydlon a bydd y Brifysgol yn cymryd camau llym yn erbyn unrhyw fyfyriwr sy'n methu â gwneud hynny.

1.6 Mae'r pwyntiau rhwymedigaeth (y pwyntiau lle mae canran o'r ffi yn dod yn daladwy) a'r broses tynnu'n ôl yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr amser llawn a rhan amser newydd a'r rhai sy'n dychwelyd, ac eithrio myfyrwyr PhD/MPhil.

1.7 Dilynir Polisi Adennill a Chasglu Dyledion / Gweithdrefnau Ariannol ar gyfer casglu ac adennill dyled ffioedd dysgu myfyrwyr, a gellir defnyddio cosbau amrywiol yn dibynnu ar y ffioedd sy'n ddyledus. Mae'n ofynnol talu unrhyw fath o ddyled sy'n weddill cyn y gellir cyflwyno eich dyfarniad, cyhoeddi tystysgrif neu gadarnhau eich presenoldeb mewn seremoni raddio, gan gynnwys ffioedd dysgu.

1.8 Mae gan bob myfyriwr gyfrifoldeb i beidio ag ymgysylltu mewn gweithredoedd anghyfreithiol, fel gwyngalchu arian. Gwyngalchu arian yw'r broses o elwa ar drosedd a llygredd (enillion troseddau) a mynd i'r afael â nhw mewn ffyrdd sy'n cuddio eu tarddiad troseddol. Dylai myfyrwyr ddeall eu cyfrifoldeb i: beidio ag ymgysylltu â gweithgareddau amheus; bod yn wyliadwrus; gwybod beth i'w wneud os ydynt yn poeni am weithgaredd sy'n gysylltiedig â chyfrifon banc sydd ganddynt; a bod yn ymwybodol o oblygiadau difrifol cymryd rhan yn y math hawn o

weithgaredd troseddol. Bydd myfyrwyr sy'n cael eu hadnabod i fod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwyngalchu neu weithgaredd troseddol arall yn gyfrifol am eu gweithredoedd, a chosbau'r Brifysgol a goblygiadau cyfreithiol sy'n deillio o'r gweithgaredd hwnnw.

## 2 Diffiniadau

2.1 Defnyddir y diffiniadau canlynol o fewn y ddogfen hon:

- **Myfyrwyr newydd**: rhai sy'n cychwyn rhaglen astudio newydd, ni waeth beth fo'u hastudiaethau blaenorol gyda'r Brifysgol.
- **Myfyrwyr sy'n dychwelyd:** unigolion sy'n ail-ymrestru ar yr un rhaglen a astudiwyd y flwyddyn flaenorol neu sy'n ail-ymrestru ar ôl cymryd cyfnod o absenoldeb wedi'i gymeradwyo, neu sy'n trosglwyddo'n uniongyrchol o un rhaglen i raglen arall fel rhan o drosglwyddiad a gymeradwywyd gan y Brifysgol.
- **Myfyrwyr y DU:** y myfyrwyr hynny sy'n bodloni'r diffiniad o gymhwyso ar gyfer ffioedd y DU yn unol â *Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007* a *Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015*. Dim ond ar gategorïau penodol o fyfyrwyr y codir ffïoedd y DU arnynt. Dylai myfyrwyr ymgynghori ag UKCISA am yr wybodaeth ddiweddaraf.
- **Myfyrwyr rhyngwladol:** y myfyrwyr hynny nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o Fyfyrwyr y DU.
- **Myfyrwyr dramor:** myfyrwyr sydd eisoes â'r hawl i weithio ac astudio yn y DU, nad ydynt yn cael eu hystyried yn fyfyriwr o'r DU ond nad ydynt angen fisa astudio gan y Brifysgol.

2.2 At ddibenion cyfeiriadau ffioedd a benthyciadau, nid cyfeiriadau academaidd neu addysgiadol y gellir dod o hyd i'w diffiniadau yn y Rheoliadau Academaidd, rhaid defnyddio diffiniadau canlynol y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

- Dysgu Wyneb yn Wyneb: Mae'n ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ddilyn amserlen strwythuredig ar y campws gyda phresenoldeb amser llawn (e.e. mynychu'n bersonol o leiaf unwaith yr wythnos, ac eithrio penwythnosau). Mae hyn yn gymwys ar gyfer Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Benthyciadau Cynhaliaeth llawn.
- Dysgu o Bell: Rhaglenni lle nad yw myfyrwyr yn mynychu cyrsiau traddodiadol ar y campws. Os yw presenoldeb yn achlysurol yn unig, fel unwaith y tymor, dim ond ar benwythnosau, neu'n gyfan gwbl ar-lein. Nid yw dysgwyr o bell yn gymwys i gael Benthyciadau Cynhaliaeth, er y gallent fod yn gymwys i gael Benthyciadau Ffioedd Dysgu neu Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA).
- Dysgu Cyfunol: Mae'n cyfuno cyfarwyddyd wyneb yn wyneb â chyflwyno ar-lein. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn dosbarthu dysgu cyfunol fel Dysgu Wyneb yn Wyneb (ac felly'n gymwys i gael Benthyciadau Cynhaliaeth) cyn belled â bod y presenoldeb personol gorfodol, gofynnol ar y campws yn bodloni disgwyliadau amser llawn. Os yw'r presenoldeb personol gofynnol yn fychan neu wedi'i gyfyngu i benwythnosau, gall y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ei ailddosbarthu fel dysgu o bell.

## 3 Crynodeb o Telerau ac Amodau Ffïoedd Dysgu

3.1 Mae'r telerau ac amodau canlynol yn berthnasol:

| **Adran:** | **Yn berthnasol i:** |
|---|---|
| A: Telerau ac Amodau Ffïoedd Dysgu | Holl fyfyrwyr ar wahân i'r rheiny sydd wedi ymrestru ar raglenni Ar-lein Prifysgol Wrecsam |
| B: Gwybodaeth Ychwanegol ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig | Holl fyfyriwr Ymchwil Ôl-raddedig |
| C: Telerau ac Amodau Ffïoedd Dysgu Ychwanegol | Holl fyfyrwyr Rhyngwladol |
| D: Telerau ac Amodau Ffïoedd Dysgu Ychwanegol | Holl fyfyrwyr y DU ar wahân i'r rheiny sydd wedi ymrestru ar raglenni Ar-lein Prifysgol Wrecsam |
| E: Telerau ac Amodau Ffïoedd Dysgu Ychwanegol | Holl fyfyrwyr sydd wedi ymrestru ar raglenni Ar-lein Prifysgol Wrecsam |

## A. Telerau ac Amodau Ffïoedd Dysgu

- Mae'r adran hon yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr ac eithrio myfyrwyr Ar-lein Prifysgol Wrecsam (gweler adran E).
- Er mwyn osgoi amheuaeth, ystyrir bod yr holl ffioedd a thaliadau a gyhoeddir ar dudalennau gwe'r Brifysgol yn rhan o'r ffi ddysgu academaidd.

### 1 Myfyrwyr sy'n Trosglwyddo eu Hastudiaethau'n Fewnol o Sefydliad Arall

1.1 Bydd y myfyrwyr presennol sy'n trosglwyddo o gwrs arall a ddechreuodd cyn 1 Medi 2025 i gwrs amgen gyda'r un dull o astudio ac o fewn yr un band ffi yn cael eu hasesu o dan yr hen drefniadau ffioedd dysgu (presennol) a'r trefniadau cymorth i fyfyrwyr sy'n gymwysedig i'r cwrs gwreiddiol.

1.2 Bydd myfyrwyr sy'n trosglwyddo o gwrs a ddechreuodd cyn 1 Medi 2025 i gwrs gyda dull gwahanol o astudio yn cael eu hasesu dan y trefniadau ffioedd dysgu a chymorth i fyfyrwyr newydd.

### 2 Myfyrwyr sy'n Derbyn Cydnabyddiaeth am Ddysgu Blaenorol/Dysgu Drwy Brofiad Blaenorol (RP(E)L)

2.1 Pan roddir RP(E)L i fyfyriwr am un neu fwy o fodiwlau sy'n golygu gan hynny ei fod yn ymgymryd â llai o gredydau na'r hyn sy'n ddisgwyliedig am y flwyddyn, addesir y ffi safonol flynyddol ar gyfer y flwyddyn y byddai'r modiwlau eithriedig yn cael eu hastudio fel a ganlyn:

- **Cymhwysir gostyngiad o 5% o'r ffi ddysgu flynyddol a nodir (heb gyfrif unrhyw fwrsariaethau neu ysgoloriaethau) fesul 10 credyd o RP(E)L a gymeradwyir i'r ffi ddysgu flynyddol ar gyfer y flwyddyn y byddai'r credydau eithriedig wedi cael eu hastudio.**

2.2 Dylid gwneud pob cais am RP(E)L ar adeg gwneud cais.

### 3 Asesiad gyda Mynychu o'r Myfyrwyr Sy'n Ail-wneud Blwyddyn

3.1 Bydd myfyrwyr **Israddedig sy'n Ail-wneud Blwyddyn** y mae gofyn iddynt ail-wneud eu dysgu ac asesu angen talu ffi benodol fesul 10 credyd lle mae'r modiwl yn cael ei gyfeirio (gweler Tudalen Gwe Ffïoedd Dysgu Israddedig am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y swm fesul 10 credyd). Mae hyn yn amodol ar yr un pwyntiau atebolrwydd ag a nodir isod ar gyfer yr holl ffioedd dysgu llawn amser eraill.

3.2 Mae'n bosib y bydd **myfyrwyr Ôl-raddedig (A Ddysgir)** sydd angen ail-wneud eu dysgu a'u hasesu angen talu am y nifer o bwyntiau credyd sy'n cael eu hail-wneud. Bydd hyn yn cael ei adolygu achos wrth achos a bydd yn cael ei gyfrifo drwy rannu ffi'r cwrs gyda chyfanswm nifer y pwyntiau credyd sydd ar gael. Mae hyn yn amodol ar yr un pwyntiau atebolrwydd ag a nodir isod ar gyfer yr holl ffioedd dysgu Llawn Amser eraill.

3.3 Ni chodir unrhyw ffioedd dysgu pan fydd modiwl yn cael ei ohirio (fel arfer drwy Amgylchiadau Esgusodol cymeradwy).

## 4 Arholiadau mewn Lleoliadau Eraill

4.1 Os bydd myfyriwr yn gofyn i arholiad Prifysgol gael ei gynnal mewn lleoliad arall o dan amgylchiadau eithriadol (er enghraifft oherwydd bod y myfyriwr yn gallu dangos ei fod yn methu â theithio i'r Brifysgol oherwydd rheswm da), a bod y Brifysgol yn cytuno i gais o'r fath, bydd y Brifysgol yn codi ffi weinyddol am hyn. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn rhaid i'r myfyriwr dalu ffïoedd neu daliadau ar wahân i drydydd partïon mewn perthynas â'r arholiad mewn lleoliad arall.

## 5 Myfyrwyr sy'n Astudio Cyrsiau Ychwanegol

5.1 Pan fydd myfyrwyr eisoes yn astudio cwrs israddedig llawn amser, caniateir i lwfans o un modiwl 20 credyd ychwanegol gael ei astudio heb i ffi ddysgu gael ei chodi yn amodol ar ddangos bod yr astudiaeth ychwanegol hon yn gysylltiedig â'u cwrs astudio ac yn ychwanegu ato. Ni chynhwysir cyrsiau byrion mewn ieithoedd (ac eithrio Saesneg mewn-sesiynol) yn yr eithriad hwn oni bai eu bod yn hanfodol. Mae'n rhaid i unrhyw eithriadau i'r gofyniad hwn gael eu cymeradwyo gan Ddeon y Gyfadran a'r Cyfarwyddwr Cyllid cyn i fyfyrwyr ymrestru ar y modiwl(au) neu'r cwrs ychwanegol.

## 6 Y Brifysgol yn Canslo

6.1 Mae gan bob cwrs isafswm maint dosbarthiadau ac mae'n bosibl y cânt eu canslo os nad yw digon o fyfyrwyr yn cofrestru arnynt. Er bod y Brifysgol yn gwneud ei gorau glas i osgoi'r sefyllfa hon, os bydd yn codi, bydd gan y myfyriwr yr hawl i ad-daliad llawn o unrhyw ffioedd a dalwyd neu gall ddewis trosglwyddo i gwrs arall. Ni fydd y Brifysgol yn atebol, fodd bynnag, am unrhyw golledion eraill a gafwyd o ganlyniad i hynny.

6.2 Pe bai'n rhaid gohirio dosbarth unigol oherwydd salwch staff neu oherwydd unrhyw reswm arall y mae'r Brifysgol yn gyfrifol amdano, er bod hynny'n hynod annhebygol, bydd yn gwneud pob ymdrech resymol i aildrefnu neu wneud trefniadau fel bod y cyfle dysgu perthnasol yn cael ei ddarparu drwy ddull arall neu o fewn y dosbarthiadau sy'n weddill yn y cwrs.

## 7 Teithiau Maes

7.1 Ar gyfer rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig, mae costau ar gyfer teithiau maes sy'n hanfodol ar gyfer eich rhaglen astudio yn cael eu cynnwys yn y ffi ddysgu. Bydd gofyn i fyfyrwyr dalu ffi ar wahân ac ychwanegol ar gyfer unrhyw gostau teithiau maes ac ymweliadau sydd wedi'u cynnwys mewn modiwlau opsiynol neu sydd wedi'u dylunio i ategu eich astudiaethau.

7.2 Pan fo cost ychwanegol yn daladwy ar gyfer taith maes opsiynol, ni chaniateir i fyfyriwr fod yn bresennol ar y daith maes nes y bydd unrhyw daliad sy'n ddyledus wedi ei wneud yn llawn. Gall methu â bod yn bresennol ar y daith maes am na thelir ffi am hynny arwain at fethu modiwl neu raglen a dylai myfyrwyr ystyried hyn wrth ddewis rhaglenni ac opsiynau modiwlau.

7.3 Gall ystod o gyrsiau proffesiynol, yn bennaf ym maes Busnes, gynnwys lwfans ar gyfer treuliau sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Gelwir y trefniadau hyn yn drefniadau ffioedd cyfansawdd. Bydd tiwtor cwrs y myfyriwr yn darparu'r manylion llawn.

## 8 Gweithgareddau a Ffïoedd Ychwanegol

8.1 Gall fod yn ofynnol ar gwrs i fyfyriwr fynychu penwythnosau preswyl neu sesiynau addysgu eraill y tu allan i'r Brifysgol a gallai fod yn ofynnol i'r myfyriwr dalu ffi ychwanegol amdanynt. Ar gyfer myfyrwyr israddedig, caiff y ffi hon ei chynnwys yn eich ffi ddysgu os yw'n rhan orfodol o'ch rhaglen. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i fyfyrwyr ar raglenni eraill dalu ffi ychwanegol.

8.2 Mae'n bosibl y bydd angen neu na fydd angen i fyfyrwyr ddarparu deunyddiau ychwanegol a nwyddau traul; pan fydd darpariaeth o'r fath yn hanfodol er mwyn i'r myfyriwr allu cwblhau ei astudiaethau; y Brifysgol fydd yn eu darparu. Ym mhob achos arall, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i fyfyrwyr ddarparu unrhyw ddeunyddiau ac adnoddau traul eu hunain.

8.3 Gall myfyrwyr fod yn gyfrifol ar wahân am dalu ffioedd i asiantaethau allanol megis ffi gofrestru gyda chorff proffesiynol. Byddwch yn cael gwybod a yw hyn yn berthnasol i'ch cwrs fel rhan o'ch proses ymgeisio.

## 9 Ffïoedd Ychwanegol ar gyfer Dogfennau Dyblyg

9.1 Mae gan fyfyrwyr yr hawl i un copi o ddogfennau swyddogol yn ymwneud â'u statws fel myfyriwr. Mae hyn yn cynnwys cardiau myfyrwyr, dogfennau yn cadarnhau eu statws fel myfyriwr cofrestredig, canlyniadau academaidd a, lle bo'n briodol, trawsgrifiad a/neu dystysgrif. Gall y Brifysgol godi ffi am gopïau ychwanegol neu ddyblyg o unrhyw un o'r dogfennau hyn, neu lythyrau ychwanegol penodol ynghylch eich statws fel myfyriwr, yn ogystal ag unrhyw ffi weinyddu ychwanegol a chostau postio am y rhain.

## 10 Cyfrifiadau Ffioedd Rhan-amser

10.1 Cyfrifir ffioedd dysgu ar gyfer astudio rhan-amser ar sail pro-rata yn ôl nifer y credydau y disgwylir i'r myfyriwr eu hastudio yn ystod y flwyddyn a'r gyfradd ffioedd fesul credyd ar gyfer y radd lawn. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cymeradwyo ar wahân gan y Pwyllgor Datblygu Portffolio Academaidd (APDC).

10.2 Pan fo rhaglenni'n cynnwys dyfarniadau cysylltiedig fel Tystysgrif ôl-raddedig, Diploma ôl-raddedig neu raddau atodol, cyfrifir y ffioedd dysgu ar sail pro-rata yn ôl nifer y credydau y mae'r myfyriwr yn eu cymryd a'r ffi fesul credyd ar gyfer y radd lawn. Rhaid i'r APDC gymeradwyo unrhyw eithriadau ar wahân.

10.3 Dylid pennu ffioedd tramor ar yr un lefel â ffioedd rhyngwladol. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir ystyried ffi wahanol fesul achos, gyda chymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Derbyn Myfyrwyr neu'r APDC.

## 11 Ffi ar gyfer Modiwlau Unigol

11.1 Cyfrifir y ffi ar gyfer modiwlau unigol, oni bai eu bod yn cael eu cyhoeddi'n benodol, drwy rannu nifer y credydau yn y modiwl â chyfanswm nifer y credydau yn y rhaglen lawn a dosrannu hynny i ffi lawn y rhaglen.

(Credydau'r Modiwl / Cyfanswm Credydau'r Rhaglen)
X
Cyfanswm Ffi'r Rhaglen ££
=
Ffi Modiwl Unigol

11.2 Dylai'r ffi ar gyfer modiwlau unigol, y rhai nad ydynt yn gysylltiedig â rhaglenni, gynrychioli'r ffi fesul credyd i'r hyn sy'n cyfateb i'r rhaglen lawn berthnasol. Er enghraifft, dylai modiwl unigol 20 credyd Lefel 4, y byddai disgwyl iddo fod yn rhan o raglen Baglor Israddedig 360 credyd, gael ei gostio ar 5.56% (20/360) o'r hyn sy'n cyfateb i raglen lawn, neu, dylai modiwl unigol 20 credyd Lefel 7, y byddai disgwyl iddo fod yn rhan o raglen Meistr ôl-raddedig 180 credyd, gael ei gostio ar 11.12% (20/180) o'r hyn sy'n cyfateb i raglen lawn. Rhaid i APDC gymeradwyo unrhyw eithriadau i hyn

## B. Gwybodaeth Ychwanegol ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig

### 1 Ffïoedd Dysgu

1.1 Mae ffioedd dysgu yn berthnasol i'ch cofrestriad ar raglen yn unig ac nid ydynt yn cynnwys eitemau megis:

- Argraffu a rhwymo traethawd.
- Unrhyw gostau teithio a/neu gostau cofrestru ar gyfer cynhadledd.

1.2 Pan fydd myfyriwr Ymchwil Ôl-raddedig yn ymrestru am y tro cyntaf ar ddechrau ei gwrs, gall ymrestru yng nghanol y flwyddyn academaidd. Os felly, bydd ffi'r flwyddyn gyntaf yn cael ei chyfrifo ar sail pro-rata a bydd yn rhedeg o'r dyddiad ymrestru hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd honno (31ain Gorffennaf). Pan fyddant yn ail-gofrestru ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, bydd y ffi lawn ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan yn daladwy. Bydd y flwyddyn bilio ar gyfer myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig yn rhedeg o 1af Awst i 31ain Gorffennaf yn unol â'r flwyddyn academaidd.

### 2 Dyddiadau Taliadau Dyledus

2.1 Gan y gall myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig gofrestru ar adegau gwahanol drwy gydol y flwyddyn academaidd, mae'n rhaid i'r anfoneb gyntaf gael ei thalu erbyn diwedd yr 8 mis yn unol â'r rheolau ar gyfer cyrsiau eraill.

2.2 Wedi hynny, caiff anfonebau eu hanfon yn nhymor yr hydref a gallant gael eu talu mewn 3 rhandaliad:

- **Taliad 1af yn ddyledus erbyn - erbyn 31ain Hydref**
- **2il daliad yn ddyledus erbyn - erbyn 31ain Ionawr**
- **3ydd taliad yn ddyledus - erbyn 30ain Ebrill**

### 3 Ffi Cyflwyniad i Ddod

3.1 Pan fyddwch wedi gorffen casglu data a drafftio prif rannau eich traethawd i fformat drafft boddhaol, gallwch wneud cais am ffi 'cyflwyniad i ddod' rhaglen lai. Mae'n rhaid i fyfyrwyr llawn amser fod wedi cwblhau tair blynedd o gofrestriad a myfyrwyr rhan-amser, pum mlynedd o gofrestriad. Ni fydd y cais yn cael ei ôl-ddyddio fel arfer am fwy na 14 diwrnod ac uchafswm hyd y statws hwn yw 12 mis. Os nad yw'r thesis wedi cael ei gyflwyno o fewn y cyfnod 12 mis hwn, bydd y ffi yn dychwelyd i'r ffi ddysgu lawn, arferol ar gyfer y rhaglen. Ni ddylai myfyrwyr fod ag unrhyw ffioedd dysgu dyledus sy'n ymwneud â dyled Prifysgol cyn cymryd eu harholiad viva voce.

## C. Telerau ac Amodau Ffïoedd Dysgu Ychwanegol ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol

- Nid yw'r adran hon yn berthnasol i fyfyrwyr Ar-lein Prifysgol Wrecsam (gweler adran E).

### 1 Amseriad y Telerau

1.1 **Myfyrwyr Newydd - Ffïoedd blwyddyn 1af**:

- Mae gofyn i'r holl fyfyrwyr rhyngwladol dalu canran o'u ffïoedd dysgu blwyddyn gyntaf cyn i lythyr Cadarnhad Derbyn ar gyfer Astudiaeth (CAS) gael ei anfon.
- Bydd Derbyniadau Rhyngwladol yn penderfynu ar y swm y blaendal cyn CAS sydd i'w dalu yn ystod y broses ymgeisio.
- Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ofyn am daliadau ffïoedd cwrs yn llawn cyn cyhoeddi'r CAS os penderfynir bod hyn yn angenrheidiol i gefnogi cais fisa'r myfyriwr.
- Bydd unrhyw fyfyriwr nad ydynt angen gwneud taliad llawn ymlaen llaw yn cael 6 mis o ddechrau eu cwrs i dalu gweddill y ffi. Gall hyn gael ei dalu mewn camau drwy gynllun talu.
- Fel arall gall y myfyriwr ddarparu tystiolaeth o nawdd sy'n cadarnhau bod y ffi lawn ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn daladwy gan eu noddwr cymeradwy. Rhaid derbyn isafswm ffïoedd y cwrs neu'r llythyr noddwr cymwys cyn i lythyr CAS gael ei gyhoeddi.
- Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ofyn am daliadau ffioedd cwrs yn llawn cyn cyhoeddi'r CAS os penderfynir bod hyn yn angenrheidiol i gefnogi cais fisa'r myfyriwr.
- Os na thelir ffioedd y cwrs yn unol â Thelerau ac Amodau'r cynnig, efallai na fydd gan y Brifysgol unrhyw opsiwn arall, heblaw tynnu'r Ysgoloriaeth a ddyfarnwyd i'r myfyriwr yn ôl.

1.2 **Myfyrwyr sy'n Dychwelyd:**

- Mae'r holl ffïoedd dysgu yn ddarostyngedig i isafswm taliad o £5,000 (neu'r ffi lawn os yw'r ffi lawn yn llai na £5,000) cyn cofrestru wrth ail-ymrestru ar gyfer yr 2il, y 3edd neu'r 4edd flwyddyn. Mae gweddill y taliad yn daladwy o fewn 6 mis i ailddechrau'r cwrs.

1.3 Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod yr holl daliadau yn cyrraedd y Brifysgol erbyn y dyddiad gofynnol ar gyfer taliadau. Ni wneir unrhyw eithriad oherwydd bod banciau ar gau yn ystod gwyliau cyhoeddus/cenedlaethol ac fe ddylai'r myfyriwr ragweld y rhain. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud yn brydlon a bydd y Brifysgol yn cymryd camau llym yn erbyn unrhyw fyfyriwr sy'n methu â gwneud hynny. **Os na fydd myfyriwr yn gwneud y taliad cychwynnol cyn ymrestru, neu'r taliad olaf o fewn 6 mis i ddechrau'r cwrs, efallai y bydd yn ofynnol i'r Brifysgol dynnu'r myfyriwr yn ôl.**

1.4 **Os oes gan fyfyriwr Fisa Myfyriwr, byddwn yn rhoi gwybod i'r UKVI nad ydym bellach yn noddi'r myfyriwr. Efallai bydd y UKVI yn ysgrifennu at y myfyriwr i gwtogi ei ganiatâd i aros. Rhaid i'r myfyriwr wneud trefniadau i ddychwelyd adref neu wneud cais o dan gategori fisa gwahanol.**

1.5 Gall methu â thalu ffïoedd dysgu yn llawn erbyn y terfynau amser gofynnol arwain at drosglwyddo manylion myfyrwyr i asiantaeth casglu dyledion a gyflogir gan y Brifysgol.

1.6 Mae'r Brifysgol yn annog myfyrwyr i beidio â gwneud taliad drwy drosglwyddiad arian uniongyrchol. Dylai myfyrwyr dalu drwy lwyfannau talu diogel y Brifysgol sydd wedi'u cymeradwyo yn unig. Dylid gwneud taliadau ffioedd ymgeisio a ffioedd dysgu gan Fyfyrwyr ac Ymgeiswyr Rhyngwladol o'r tu hwnt i'r DU drwy'r Porth Talu Flywire y Brifysgol pan fo modd gwneud hynny. Bydd ffioedd ymgeisio nad ydynt yn cael eu talu drwy Flywire (h.y. wedi'u talu'n uniongyrchol i gyfrif banc Prifysgol Wrecsam) yn cynnwys ffi weinyddu pe byddai angen eu had-dalu. **Ni** fydd ffïoedd gweinyddu'n cael eu codi ar gyfer ad-daliadau wedi'u gwneud drwy Flywire.

1.7 Gofynnir i fyfyrwyr fod ar eu gwyliadwriaeth wrth dalu ffïoedd i'r Brifysgol. Ni ddylai myfyrwyr ddefnyddio trydydd parti neu unigolion sy'n cynnig gostyngiadau taliadau i wneud eu taliad i'r Brifysgol. Nid yw defnyddio trydydd parti'n rhoi unrhyw warant y bydd taliadau'n cael eu derbyn yn gywir gan y Brifysgol.

1.8 Pe digwydd i daliad gael ei ddychwelyd, ym mhob amgylchiad, ni fydd taliadau a dderbyniwyd ond yn cael eu dychwelyd i'r ffynhonnell ariannu wreiddiol.

1.9 Mae gan Brifysgol Wrecsam ymrwymiad cyfreithiol i gydymffurfio gyda sancsiynau a orfodwyd gan lywodraeth y DU (trefniadau sancsiynau - Pwy sy'n ddarostyngedig i sancsiynau ariannol yn y DU? - GOV.UK (www.gov.uk).

1.10 Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch p'un a yw taliad yn dod o dan y categori hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda internationaladmissions@wrexham.ac.uk.

## 2 Myfyriwr gyda Noddwr Ariannol

2.1 Mae gan fyfyriwr noddwr ariannol swyddogol os mai Llywodraeth ei Mawrhydi, ei Lywodraeth gartref, y Cyngor Prydeinig neu unrhyw sefydliad rhyngwladol, cwmni rhyngwladol, Prifysgol neu ysgol annibynnol yn y DU a gydnabyddir yw ei noddwr. Mae'n ofynnol i fyfyriwr sy'n cael ei noddi'n llawn yn y ffordd hon dalu blaendal o 50% o ffi blwyddyn gyntaf y cwrs er mwyn derbyn CAS. Gellir gwneud taliad gan noddwr neu'r myfyriwr.

2.2 Mae'n rhaid i ymgeisydd gyflwyno copi o'i lythyr noddi. Er mwyn iddo fod yn ddilys, mae'n rhaid i'r llythyr ddangos:

- Enw'r myfyriwr.
- Enw swyddogol a manylion cyswllt y noddwr ariannol.
- Dyddiad y llythyr.
- Hyd y nawdd.
- Faint o arian y mae'r noddwr ariannol swyddogol yn ei roi, neu ddatganiad y bydd yn talu holl ffioedd y cwrs a chostau byw.

2.3 Anfonir anfoneb at y noddwyr ar ôl i'r myfyriwr ymrestru i drefnu talu gweddill y ffïoedd.

2.4 Mae'n rhaid i'r myfyrwyr hyn ddarparu llythyr wrth ymrestru/ail-ymrestru ar gyfer pob blwyddyn o'u cwrs yn cadarnhau y bydd eu noddwr yn talu'r ffi am y flwyddyn academaidd benodol honno. Bydd canlyniad methu â darparu llythyr o'r fath yn golygu bod y myfyriwr yn gyfrifol am dalu.

2.5 Mae'n rhaid i'r taliadau gael eu gwneud yn uniongyrchol i'r Brifysgol ac ni chânt eu dal gan asiant recriwtio.

2.6 Mae'r Brifysgol yn annog myfyrwyr i beidio â gwneud taliad drwy drosglwyddiad banc uniongyrchol. Dylai myfyrwyr dalu drwy lwyfannau talu diogel y Brifysgol sydd wedi'u cymeradwyo yn unig. Dylid gwneud taliadau ffioedd ymgeisio a ffïoedd dysgu gan Fyfyrwyr ac Ymgeiswyr Rhyngwladol o'r tu hwnt i'r DU drwy'r Porth Talu Flywire y Brifysgol pan fo modd gwneud hynny.

## 3 Cyrsiau Byrion Iaith Saesneg - Fisas Ymweld Myfyrwyr

3.1 Mae'n rhaid i bob myfyriwr rhyngwladol ar gyrsiau byrion Iaith Saesneg sy'n gofyn am fisa myfyriwr sy'n ymweld dalu blaendal o £1,000 na ellir ei ad-dalu cyn i lythyr derbyn neu wahoddiad gael ei gyflwyno. Mae'n rhaid talu gweddill y Ffioedd Dysgu yn llawn 21 diwrnod cyn i'r cwrs ddechrau.

## 4 Peidio â Thalu Ffïoedd

4.1 Mae'n bosib y bydd pob myfyriwr Israddedig ac Ôl-raddedig Rhyngwladol nad ydynt wedi talu'r ffïoedd dysgu'n llawn erbyn y dyddiadau perthnasol yn wynebu'r sancsiynau canlynol:

- Gwahardd yn awtomatig o'r Brifysgol am beidio â thalu Ffioedd Dysgu.
- Bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i Swyddfa Gartref y DU (UKVI) cyn pen 10 diwrnod i'r gwaharddiad gan y Brifysgol. Disgwylir i'r myfyriwr adael y wlad neu wneud cais am ganiatâd i aros dan gategori fisa gwahanol gan na fydd y Brifysgol yn ei noddi mwyach. Bydd y UKVI yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i ddiddymu'r fisa.

4.2 Gall myfyrwyr apelio yn erbyn unrhyw benderfyniadau a wnaed oherwydd methu talu drwy gysylltu gyda tuitionfeeappeals@wrexham.ac.uk.

## 5 Cyrsiau Saesneg Cyn-sesiynol

5.1 Caiff pob myfyriwr rhyngwladol sy'n dilyn cwrs Saesneg cyn-sesiynol ei asesu ar ddiwedd y cwrs cyn-sesiynol i weld a yw wedi cyflawni'r lefel ofynnol o Saesneg. Os bydd gan fyfyrwyr un CAS ac maent yn gymwys i barhau ond mae angen hyfforddiant Saesneg mewn-sesiynol **gorfodol** arnynt mae'n rhaid iddynt dalu £500 yn ychwanegol ar gyfer y cwrs a'r arholiad mewn-sesiynol, a fydd yn cael eu darparu ar y cyd â'r brif raglen.

## 6 Estyniad i Fisa Myfyriwr

6.1 Os bydd angen i fyfyriwr ymestyn ei fisa myfyriwr, mae'n rhaid iddo fod â chefnogaeth y Brifysgol ar ffurf CAS (Cadarnhau Derbyn ar gyfer Astudiaethau). Os bydd unrhyw ffioedd dysgu yn ddyledus i'r Brifysgol, ni chyhoeddir unrhyw CAS newydd.

## 7 Newid Statws y Sawl sy'n Talu'r Ffi i Fyfyriwr Ffïoedd y DU

7.1 Mae'n bosibl y caiff myfyriwr ei asesu fel un 'tramor' at ddibenion asesu ffioedd pan fydd yn ymrestru yn y Brifysgol am y tro cyntaf ac wedyn yn newid ei statws ffioedd cyn diwedd y rhaglen.

7.2 Er y gallai ei statws newid yng nghanol blwyddyn, dim ond ar ôl i'r person hwnnw ymrestru neu ail-ymrestru y daw'r newidiadau hyn i rym.

7.3 Er enghraifft, ni fydd gan fyfyriwr sy'n ymrestru ar gyfer mis Medi fel talwr ffi dramor, y mae ei amgylchiadau wedyn yn newid yng nghanol blwyddyn ac sy'n dod yn fyfyriwr ffioedd cartref, yr hawl i dalu'r swm is tan fis Medi'r flwyddyn academaidd nesaf pan fydd yn ail-ymrestru (os yw'n berthnasol). Disgwylir iddo dalu'r ffi ryngwladol lawn yn y flwyddyn academaidd ddilynol o hyd, ac ni fydd ganddo hawl i unrhyw ad-daliad ar hyn.

## 8 Sut i Dalu Ffïoedd sy'n Ddyledus

8.1 Er mwyn ymrestru yn y Brifysgol, rhaid i chi dalu **unrhyw ffïoedd dysgu sy'n ddyledus cyn pen y terfynau amser uchod.** Fel arall, bydd y Brifysgol yn ystyried eich tynnu yn ôl o'r cwrs astudio.

8.2 Os bydd yr holl ffioedd sy'n ddyledus i'r Brifysgol yn parhau heb eu talu erbyn y dyddiadau cau gofynnol, ni fydd hawl gennych i astudio ac ni fydd y Brifysgol yn caniatáu i chi ymrestru, ac/neu fe fydd yn eich tynnu yn ôl o'ch rhaglen.

8.3 Os ydych chi ar fisa Myfyriwr, bydd y Brifysgol yn **rhoi gwybod i'r UKVI nad ydych bellach yn un o fyfyrwyr Prifysgol Wrecsam, bod eich nawdd wedi'i dynnu'n ôl ac nad ydych yn bodloni'r telerau ac amodau'r fisa myfyriwr a gyflwynwyd i chi.**

## 9 Polisi Ad-dalu Ffïoedd Dysgu Myfyrwyr Rhyngwladol

9.1 Mae ad-dalu unrhyw ffioedd dysgu yn ôl disgresiwn y Brifysgol.

9.2 Mae'n rhaid gwneud cais am bob cais am ad-daliad drwy gysylltu gyda immigration@wrexham.ac.uk.

9.3 Tynnu cais yn ôl oherwydd gwrthod fisa:

- Rhaid i bob myfyriwr y mae ei gais am fisa yn cael ei wrthod gyflwyno copi o'r adroddiad gwrthod (gan y Swyddog Clirio Mynediad) i'r Brifysgol cyn pen 7 diwrnod ar ôl y penderfyniad gwrthod. Cynghorir ymgeiswyr gan y Brifysgol i gyflwyno adolygiad

gweinyddol i adran UKVI o fewn y Swyddfa Gartref os bydd cais am fisa yn cael ei wrthod (gan gymryd bod sail i apelio). Rhaid i fyfyrwyr ddilyn cyngor y Brifysgol ynghylch eu hagwedd at eu hadolygiad gweinyddol a chyflwyno eu hapêl i UKVI cyn pen 21 diwrnod ar ôl y penderfyniad gwrthod.

9.4 Bydd unrhyw ad-daliadau sy'n ddyledus oherwydd gwrthod fisa yn cael eu trin fel a ganlyn:

- Os bydd eich cais am fisa yn cael ei wrthod a'ch bod yn cyflwyno adolygiad gweinyddol, ond nid yw'r UKVI yn gwyrdroi'r penderfyniad gwreiddiol ac mae'r gwrthodiad yn sefyll, ac nad yw'r gwrthodiad yn ganlyniad i ddogfennaeth dwyllodrus neu anghywir, byddwch yn cael ad-daliad llawn.
- Os bydd eich cais am fisa yn cael ei wrthod a'ch bod yn methu â chyflwyno adolygiad gweinyddol ac nad yw'r gwrthodiad yn ganlyniad i ddogfennaeth dwyllodrus neu anghywir, tynnir ffi o £2,000 o'r ffioedd cwrs a dderbyniwyd gan y Brifysgol cyn gwneud ad-daliad.
- Os bydd eich cais am fisa yn cael ei wrthod a bod y gwrthodiad o ganlyniad i ddogfennaeth dwyllodrus neu anghywir ac nad yw adolygiad gweinyddol yn gwrthdroi hyn, ni wneir ad-daliad o'r ffïoedd cwrs a dderbyniwyd.

9.5 **Tynnu'n ôl cyn darparu Fisa**

- Bydd ymgeiswyr sy'n tynnu eu cais yn ôl cyn cael y fisa yn cael ad-daliad llawn o holl ffioedd dysgu'r flwyddyn gyntaf a dalwyd, namyn ffi weinyddol gwerth hyd at £250.

9.6 **Tynnu'n ôl ar ôl cyn darparu Fisa**

- Bydd ymgeiswyr, sydd angen CAS er mwyn gwneud cais am fisa, sydd yna'n tynnu'n ôl ar ddyddiad dechrau'r cwrs, neu cyn i'r cwrs ddechrau, ar ôl cael fisa, yn cael ad-daliad llawn o holl ffioedd dysgu'r flwyddyn gyntaf a dalwyd, namyn ffi weinyddol gwerth hyd at £1,000.

9.7 **Tynnu'n ôl o ganlyniad i fethiant sy'n gysylltiedig â'r Iaith Saesneg**

- Bydd myfyrwyr sy'n ymrestru ar gyfer cwrs Saesneg cyn-sesiynol ar un CAS ond sy'n methu â chyflawni'r gofyniad yn cael eu tynnu'n ôl wedyn a bydd ganddynt hawl i ad-daliad o'r ffi ddysgu prif gwrs llai cost y cwrs cyn-sesiynol a llai ffi weinyddu o hyd at £1,000.

9.8 **Tynnu'n ôl / ataliad o fodiwl Ymarfer Uwch**

- Ni fydd myfyrwyr presennol sy'n dewis tynnu'n ôl o'r modiwl ymarfer uwch yn cael ad-daliad ar gyfer y modiwl hwn oni bai bod amgylchiadau eithriadol, bydd ceisiadau'n cael eu hasesu ar sail unigol.
- Ni fydd modd ad-dalu myfyrwyr presennol nad ydynt yn gallu symud ymlaen at y modiwl ymarfer uwch oherwydd cynnydd academaidd.

- Bydd myfyrwyr presennol y mae gofyn iddynt dynnu'n ôl oddi ar y modiwl ymarfer uwch oherwydd mater Prifysgol yn cael cynnig ad-daliad o'r ffi ymarfer uwch.

9.9 **Tynnu'n ôl / ataliadau yn ystod y rhaglen**

- Bydd pob myfyriwr Rhyngwladol ar gyrsiau Israddedig ac Ôl-raddedig sy'n tynnu'n ôl neu'n atal eu hastudiaethau yn ystod eu rhaglen astudio yn cael y lefelau canlynol o ad-daliad o'r Ffioedd Dysgu net (ar ôl unrhyw ysgoloriaeth) ar gyfer y flwyddyn academaidd honno:
  - Llai na naw wythnos cyn dyddiad dechrau'r cwrs – 75%;
  - Rhwng naw a deunaw wythnos ar ôl i'r cwrs ddechrau – 50%;
  - Dros ddeunaw wythnos ar ôl i'r cwrs ddechrau – 0%.
- Ni fydd unrhyw fyfyriwr sy'n cael ei ganfod i dorri polisi ymfudo UKVI yn gymwys am ad-daliad o unrhyw ffïoedd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw fyfyriwr wedi'i dynnu'n ôl gan y sefydliad oherwydd nad yw wedi mynychu, ar ôl cwblhau'r weithdrefn absenoldeb swyddogol.
- Ni fydd myfyrwyr sy'n atal eu hastudiaethau yn gallu parhau yn y DU ar eu fisa myfyriwr cyfredol. Rhoddir gwybod i'r UKVI fod y myfyriwr wedi atal ei astudiaethau a byddant yn cymryd y camau angenrheidiol i gwtogi fisa'r myfyriwr. Bydd disgwyl i'r myfyriwr ddychwelyd adref neu wneud cais am ganiatâd i aros os yw'n dewis aros yn y DU. Bydd gan y myfyriwr yr opsiwn i ddychwelyd i'w astudiaethau (fel y cytunwyd ar y ffurflen atal astudiaethau), i wneud hyn bydd angen CAS newydd ar y myfyriwr i allu gwneud cais am ei fisa newydd. Os bydd y myfyriwr yn gofyn am ad-daliad yn dilyn yr ataliad, bydd gofyn iddo dalu'r holl ffioedd sy'n ddyledus cyn cyhoeddi ail CAS.

9.10 **Tynnu'n ôl o gyrsiau byr**

- Bydd pob myfyriwr Rhyngwladol ar gyrsiau byr sy'n gofyn am fisa myfyriwr sy'n ymweld ac sy'n tynnu'n ôl o'i gwrs cyn pen 14 diwrnod o ddechrau'r cwrs yn cael ad-daliad llawn o'i Ffioedd Dysgu namyn ffi weinyddol o hyd at £1,000.

9.11 **Apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod prosesu ad-daliad rhyngwladol**

- Pan fo'r Brifysgol wedi gwneud penderfyniad i beidio â phrosesu ad-daliad, gall ymgeiswyr a myfyrwyr gyflwyno apêl iddo.
- Dylai'r apêl hon gael ei chyflwyno cyn pen 10 diwrnod gwaith o dderbyn yr hysbysiad na fydd ad-daliad yn cael ei brosesu.
- Nodwch **na fydd** apeliadau i adfer y ffi weinyddol o £250 sy'n cael ei wrthod pan mae ymgeisydd yn tynnu'n ôl cyn i'r Fisa gael ei ddarparu yn cael eu derbyn (gweler yr adran uchod "Tynnu'n ôl cyn i Fisa gael ei ddarparu").

9.12 **Talu'r ad-daliad**

- Os cytunir bod ad-daliad yn daladwy bydd ffioedd dysgu yn cael eu had-dalu i'r talwr

gwreiddiol gan ddefnyddio'r un dull talu â'r taliad gwreiddiol.

- Gall taliadau banc a ffïoedd gweinyddol gael eu diddymu ar gyfer ad-daliadau a wnaed drwy ddrafft banc neu drosglwyddiad banc electronig yn ôl disgresiwn Prifysgol Wrecsam (dylech gyfeirio at adran C1).

## D. Telerau ac Amodau Ffïoedd Dysgu Ychwanegol - Myfyrwyr y DU

- Nid yw'r adran hon yn berthnasol i fyfyrwyr Ar-lein Prifysgol Wrecsam (gweler adran E).

### 1 Amseriad y Telerau

1.1 Mae ffïoedd yn ddyledus ar adeg ymrestru ac mae'n ofynnol i fyfyrwyr roi gwybod i'r Brifysgol pa drefniant talu sy'n berthnasol iddynt:

1.2 Mae angen i chi dalu'r ffi lawn, neu os yw'r ffi yn fwy na £1,000, yna talu mewn tri rhandaliad fel a ganlyn:

- **Taliad 1af yn ddyledus erbyn - erbyn 31ain Hydref**
- **2il daliad yn ddyledus erbyn - erbyn 31ain Ionawr**
- **3ydd taliad yn ddyledus - erbyn 30ain Ebrill**

1.3 Bydd ffïoedd ar gyfer cyrsiau gyda dyddiadau dechrau amrywiol, gan gynnwys rhaglenni PGR, yn amodol ar ddyddiadau wedi'u haddasu fesul achos (gweler adran B2).

1.4 Gallai methu â thalu eu ffioedd dysgu yn llawn erbyn y terfynau amser gofynnol olygu bod myfyrwyr yn cael eu tynnu oddi ar y rhaglen, ac y trosglwyddir manylion myfyrwyr i asiantaeth casglu dyledion a gyflogir gan y Brifysgol.

### 2 Ffïoedd sy'n cael eu Hariannu'n Llawn gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC)

2.1 Mae angen i chi ddatgan i'r Brifysgol os yw'r SLC yn talu eich ffi ddysgu pan fyddwch yn cofrestru.

2.2 Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr fel arfer yn cadarnhau eich cyllid drwy ddull electronig i'r Brifysgol. Fodd bynnag, gellir gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o hyn.

2.3 Unwaith y mae wedi'i gadarnhau, bydd y SLC yn talu'r ffïoedd dysgu sy'n berthnasol i fyfyrwyr Israddedig yn uniongyrchol i'r Brifysgol.

2.4 Bydd y SLC yn talu ariannu ar gyfer astudiaethau Ôl-raddedig yn uniongyrchol i'r myfyriwr, nid y Brifysgol. Gan hynny, mae'n rhaid i fyfyrwyr Ôl-raddedig felly sicrhau eu bod yn gwneud eu taliad eu hunain i'r Brifysgol erbyn y dyddiadau dyledus a nodir yn D1 uchod.

2.5 Bydd pob myfyriwr ôl-raddedig yn derbyn anfoneb am ffïoedd dysgu wedi eu cyfeirio atynt hwy'n bersonol ac maent yn gyfrifol am y ffïoedd hynny.

2.6 Gall myfyrwyr israddedig nad ydynt wedi cadarnhau eu hariannu gan SLC ar yr adeg y bydd anfonebau ffïoedd dysgu'n cael eu codi, dderbyn anfoneb ar gyfer ffïoedd dysgu wedi'i gyfeirio atynt hwy'n bersonol, ac y maent yn gyfrifol amdanynt a byddant yn parhau mewn lle hyd nes i'w hariannu SLC gael ei gymeradwyo. Mae'n gyfrifoldeb ar bob myfyriwr i gadarnhau sut mae eu ffïoedd dysgu'n cael eu hariannu.

2.7 Mae'n rhaid i fyfyrwyr ailymgeisio am eu hariannu bob blwyddyn academaidd.

**3 Ffïoedd sy'n cael eu Hariannu'n Llawn gan Fwrsariaeth GIG Cymru (Cyrsiau Nyrsio a Iechyd Perthynol)**

3.1 Dylai myfyrwyr Nyrsio a Iechyd Perthynol sy'n ariannu eu ffïoedd dysgu drwy Fwrsariaeth GIG Cymru ymgeisio am eu hariannu cyn gynted ag y maent yn derbyn lle'n gadarn. Y dyddiad hwyraf y gall myfyrwyr newydd ymgeisio am Fwrsariaeth GIG Cymru yw 10 wythnos wedi iddynt ddechrau'r cwrs. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau eu bod wedi cyflwyno cais ar amser.

3.2 Unwaith mae cais bwrsariaeth yn cael ei gymeradwyo gan y GIG, bydd y Brifysgol yn derbyn hysbysiad yn cadarnhau'r ariannu a bydd y GIG yn talu'r ffïoedd dysgu yn uniongyrchol i'r Brifysgol.

3.3 Gall myfyrwyr sydd heb gais bwrsariaeth y GIG mewn lle erbyn adeg y bydd anfonebau'n cael eu codi, dderbyn anfoneb ar gyfer ffïoedd dysgu wedi'i gyfeirio atynt hwy'n bersonol, ac y maent yn gyfrifol amdanynt a byddant yn parhau mewn lle hyd nes i'w hariannu gael ei gymeradwyo. Mae'n gyfrifoldeb ar bob myfyriwr i gadarnhau sut mae eu ffïoedd dysgu'n cael eu hariannu. Bydd myfyrwyr sydd heb fod yn gymwys i dderbyn Bwrseriaeth y GIG yn gallu gwneud cais i'r SLC i ariannu eu ffïoedd dysgu - bydd adran D2 yn gymwysedig.

3.4 Mae'n rhaid i fyfyrwyr ailymgeisio am eu hariannu bob blwyddyn academaidd.

**4 Myfyrwyr gyda Noddwr Ffïoedd**

4.1 Mae'n rhaid i fyfyrwyr ddarparu llythyr/archeb brynu wrth ymrestru/ail-ymrestru ar gyfer pob blwyddyn o'u cwrs gan gadarnhau y bydd eu noddwr yn talu'r ffi am y flwyddyn academaidd benodol honno, ar adeg ymrestru neu cyn pen terfyn o 30 diwrnod. Mae'n rhaid i'r llythyr gynnwys cyfeiriad e-bost, y gall y Brifysgol anfon anfoneb ato, gydag enw cyswllt, rhif archeb brynu (os yw'n berthnasol) a swm y nawdd. Nodwch os gwelwch yn dda mai cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod yr holl ffioedd yn cael eu talu. Os nad yw'r noddwr yn talu ffïoedd y myfyriwr am unrhyw reswm, y myfyriwr fydd yn atebol am y taliad. Nodwch fod angen darparu llythyr bob blwyddyn y bydd myfyriwr wedi'i gofrestru a dylid ei anfon at y Brifysgol.

**5 Newid eich Dull o Astudio**

5.1 Os bydd myfyriwr yn newid o astudio Llawn Amser i fynychu'n Rhan-amser, neu i'r gwrthwyneb, caiff y ffioedd dysgu sy'n ddyledus eu newid neu eu credydu i adlewyrchu hyn yn ystod blwyddyn academaidd y newid.

5.2 Bydd myfyrwyr sy'n newid i Amser Llawn neu Ran Amser yn derbyn credyd o gyfran o'r ffi Amser Llawn a godwyd eisoes yn seiliedig ar nifer y credydau yr ymgymerwyd â hwy hyd yma ac amcangyfrif o nifer y credydau sy'n parhau i fod angen eu cymryd o fewn y flwyddyn academaidd. Mewn blynyddoedd academaidd dilynol, codir tâl Ffi Rhan-amser flynyddol ar y myfyriwr.

5.3 Bydd myfyrwyr sy'n newid i o Ran Amser i Amser Llawn angen tal ffi ychwanegol yn y flwyddyn academaidd yn seiliedig ar nifer y credydau yr ymgymerwyd â hwy hyd yma ac amcangyfrif o nifer y credydau sy'n parhau i fod angen eu cymryd o fewn y flwyddyn academaidd. Mewn blynyddoedd academaidd dilynol, codir tâl Ffi Amser Llawn flynyddol ar y myfyriwr.

5.4 Bydd myfyrwyr sy'n newid i'r modd Rhan-amser yn fforffedu unrhyw fwrsariaeth Amser Llawn/ysgoloriaeth y maent wedi'i derbyn.

5.5 Bydd myfyrwyr sy'n newid i o Ran Amser i Amser Llawn angen tal ffi ychwanegol yn y flwyddyn academaidd yn seiliedig ar nifer y credydau yr ymgymerwyd â hwy hyd yma ac amcangyfrif o nifer y credydau sy'n parhau i fod angen eu cymryd o fewn y flwyddyn academaidd.

5.6 Cyfrifoldeb y myfyrwyr sy'n derbyn cymorth ariannol myfyrwyr yw rhoi gwybod i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) am unrhyw newid yn y dull o astudio.

5.7 Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fydd myfyrwyr yn newid eu dull astudio o Lawn Amser ar gwrs Llawn Amser er mwyn cael eu dynodi fel Rhan Amser ar gwrs Llawn Amser at ddibenion cymorth ariannol i fyfyrwyr, mae'r canlynol yn berthnasol:

- Mae'n rhaid i'r myfyriwr gael cytundeb Deon y Gyfadran berthnasol a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.
- Ni fydd y newid mewn modd yn para mwy na dwy flwyddyn academaidd (uchafswm o 120 o gredydau dros ddwy flynedd).
- Bydd y ffi a godir yn 50% o'r ffi dysgu Llawn Amser ym mhob blwyddyn y mae'r myfyriwr wedi'i ymrestru fel Rhan-amser ar gwrs Llawn Amser.
- Mae'n rhaid hysbysu'r adrannau Cyllid a Chynllunio Strategol ar unwaith.

5.8 Y Swyddfa Gyllid yw'r pwynt cyswllt ar gyfer cyfrifiadau ffïoedd a adolygir accountsreceivable@wrexham.ac.uk.

## 6 Tynnu'n Ôl/Atal o'r Cwrs - Rhwymedigaeth i Dalu Ffïoedd

6.1 Mae myfyriwr yn dod yn atebol am ganran o'r ffi ddysgu cyn gynted ag y bydd yn ymrestru. Mae atebolrwydd yn gymwys o ddechrau'r flwyddyn academaidd berthnasol, hyd yn oed os yw'r myfyriwr yn ymrestru yn hwyrach na'r dyddiad hwn. Mae'r cyfnod ail-feddwl o bythefnos yn berthnasol o'r pwynt ymrestru, ni fydd myfyriwr sy'n tynnu'n ôl o fewn y cyfnod hwn yn atebol am unrhyw ffïoedd.

6.2 Pennir yr atebolrwydd am y ffi lawn fesul cam. Os bydd myfyriwr yn ymrestru, ond yn penderfynu wedyn nad yw'r Brifysgol yn rhywbeth iddynt hwy neu bod angen iddynt atal yr astudiaethau, yna gall cyfran o'r ffi fod yn daladwy yn dibynnu ar pryd y bydd yn penderfynu gadael y cwrs.

6.3 **Mae'r dyddiad gadael yn eithriadol o bwysig:**

| **Derbyniad 2027/28** | **Medi** | **Ionawr** | **Mawrth** |
|---|---|---|---|
| Dyddiad Dechrau'r Cwrs | Dydd Llun 20 Medi 2027 | Dydd Llun 24 Ionawr 2028 | Dydd Mercher 08 Mawrth 2028 |
| 25% rhwymedigaeth hyd at | Dydd Sul 09 Ionawr 2028 | Dydd Mawrth 09 Mai 2028 | Dydd Mercher 21 Mehefin 2028 |
| 50% rhwymedigaeth hyd at<br>100% rhwymedigaeth ymlaen | Dydd Sul 09 Ebrill 2027<br><br>Dydd Llun 10 Ebrill 2028 | Dydd Llun 14 Awst 2028<br><br>Dydd Mawrth 16 Awst 2028 | Dydd Mawrth 26 Medi 2028<br><br>Dydd Mercher 27 Medi 2028 |

6.4 Bydd myfyrwyr sydd â dyddiadau dechrau'r flwyddyn academaidd gwahanol yn ystod y flwyddyn â'r un egwyddorion ynghylch pwyntiau atebolrwydd.

6.5 Bydd ffïoedd dysgu yn parhau'n ddyledus tan y dyddiad y bydd y Brifysgol yn derbyn ffurflen tynnu'n ôl o'r brifysgol/atal prifysgol wedi'i llenwi'n gywir ac sydd wedi'i llofnodi gan y gyfadran academaidd y mae'r myfyriwr yn astudio ynddi. Fel arfer, ni fydd gwaharddiadau ôl-weithredol yn cael eu hawdurdodi. Dylai myfyrwyr gyfeirio at Bolisi Ymgysylltiad Academaidd Myfyrwyr y Brifysgol.

6.6 Mae'n rhaid i unrhyw dynnu'n ôl sydd wedi ei ôl-ddyddio gyflwyno tystiolaeth i ddangos bwriad gwreiddiol y myfyriwr i dynnu'n ôl ar y dyddiad a nodir. Mae'n rhaid i fyfyrwyr lenwi ffurflen tynnu yn ôl ym mhob achos.

6.7 Pan fo'r Brifysgol wedi gwneud penderfyniad i beidio â phrosesu ad-daliad, gall myfyrwyr gyflwyno apêl i tuitionfeeappeals@wrexham.ac.uk.

6.8 **Nodwch os gwelwch yn dda, os ydych chi'n rhoi'r gorau i fynychu y bydd eich ffi dal i fod yn ddyledus oni bai bod gweithdrefnau tynnu'n ôl ffurfiol wedi eu dilyn.**

6.9 Os bydd myfyriwr gradd-brentisiaeth yn cael ei orfodi i dynnu'n ôl o gwrs oherwydd nad yw ei gyflogwr yn ariannu'r astudiaeth mwyach, dylid apelio at tuitionfeeappeals@wrexham.ac.uk yn gofyn am adolygiad o'r atebolrwydd i dalu ffioedd. Dylid cyfeirio at y contract neu'r Memorandwm Cytundeb sy'n cwmpasu'r trefniant os cynhelir yr astudiaeth drwy bartner.

## E. Telerau ac Amodau Ffïoedd Dysgu Ychwanegol Ar-lein Prifysgol Wrecsam

### 1 Myfyrwyr sy'n Derbyn Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol (RPL)

1.1 Pan roddir RPL i fyfyriwr am un neu fwy o fodiwlau ac felly mae'n gwneud llai na'r credydau disgwyliedig am y flwyddyn, bydd ffi'r rhaglen yn cael ei lleihau yn ôl cyfran.

### 2 Canslo gan y Brifysgol

2.1 Mae gan bob cwrs isafswm maint dosbarthiadau ac mae'n bosibl y cânt eu canslo os nad yw digon o fyfyrwyr yn ymrestru arnynt. Er bod y Brifysgol yn gwneud ei gorau glas i osgoi'r sefyllfa hon, os bydd yn codi, bydd y myfyriwr yn cael ei ymrestru ar y rhaglen nesaf neu fodiwl addas sydd ar gael. Bydd yn gymwys am ad-daliad o unrhyw ffïoedd a dalwyd.

### 3 Taliadau Ychwanegol ar gyfer Dogfennau Dyblyg

3.1 Yn eich ffi ddysgu bydd gyfer bob blwyddyn academaidd bydd tystiolaeth eich bod wedi ymrestru ac un copi o ddogfennau swyddogol yn ymwneud â'ch statws fel myfyriwr. Mae hyn yn cynnwys eich cerdyn myfyriwr a dogfennau fel llythyrau yn cadarnhau eich statws fel myfyriwr cofrestredig, eich canlyniadau academaidd a, phan fo'n briodol oherwydd eich cyflawniad, trawsgrifiad a/neu dystysgrif. Os bydd angen arnoch gopïau ychwanegol neu ddyblyg o unrhyw un o'r dogfennau hyn, neu lythyrau ychwanegol penodol ynghylch eich statws fel myfyriwr gall y Brifysgol godi ffi weinyddu ychwanegol a chostau postio am y rhain.

### 4 Myfyrwyr a Ariannir gan y SLC

4.1 Mae angen i chi ddatgan i'r Brifysgol os yw'r SLC yn talu eich ffi ddysgu pan fyddwch yn ymrestru. Dylech fod yn ymwybodol:

- Efallai y bydd rhaid i chi dalu eich ffioedd dysgu cyn i chi dderbyn cyllid gan y SLC. Dylech wneud trefniadau i sicrhau y gallwch wneud hyn. Ni fyddwch yn gallu parhau gyda rhaglen na modiwl o fewn y rhaglen honno heb dalu'r ffïoedd perthnasol, gall eithriadau fod yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n gweithio ar y cyd â'r Tîm Cyllid a Chyngor Ariannol er mwyn caffael cyllid blynyddoedd ychwanegol oherwydd Rhesymau Personol Anorchfygol (CPR).
- Bydd unrhyw gyfnodau o dynnu'n ôl o'r rhaglen dros dro yn cael eu hadrodd i'r SLC a gall hyn arwain at oedi o safbwynt cyllid pan fyddwch yn ailddechrau'r rhaglen.
- Os ydych yn cael cyllid gan y SLC heb ymgysylltu â'r rhaglen, dylech dybio y bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r holl arian i'r SLC.

### 5 Trosglwyddo i Raglenni

5.1 Pan fo myfyriwr yn trosglwyddo o wahanol raglenni Ar-lein Prifysgol Wrecsam, bydd unrhyw ffioedd sydd eisoes wedi'u talu yn erbyn modiwlau nad oes modd eu trosglwyddo ar y rhaglen wreiddiol, dim ond yn cael eu credydu i'r rhaglen newydd os yw'r myfyriwr wedi atal ei astudiaethau cyn bod unrhyw asesiad yn cael ei gynnal o fewn y modiwl dan sylw ar y rhaglen wreiddiol.

## Ymwadiad

*Noder: Mae Prifysgol Wrecsam wedi cymryd pob cam posibl i sicrhau bod yr wybodaeth a gynhwysir uchod yn gywir ar adeg ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yr wybodaeth yn agored i newid os gwneir penderfyniadau y tu hwnt i'r Brifysgol sy'n effeithio ar bolisïau a gweithdrefnau o ran ffioedd, bwrsarïau, grantiau ac ysgoloriaethau.*

## Hygyrchedd

Mae Prifysgol Wrecsam yn ymdrechu i fod yn brifysgol gefnogol sy'n ystyriol o drawma o ran dyluniad a gweithrediad ein holl brosesau a gweithdrefnau. Os ydych angen addasiadau er mwyn cael mynediad at y ddogfen neu os oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar hygyrchedd, geiriad neu unrhyw ran o'r rheoliadau, cofiwch anfon e-bost atom at quality@wrexham.ac.uk.